# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR DDIWYGIO ATAL A GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD LLUN, 20 MEHEFIN 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd V M Evans (Chair) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| J P Curtice | J A Hale | J E C Harris |
| E J King | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: M C Child, U C Clay, C R Doyle ac H M Morris

6 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Cynghorydd J A Hale - yr agenda yn ei chyfanrwydd - Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd PABM - personol.

7 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2016 yn gofnod cywir.

8 **Y POLISI CYLLID SY'N YMWNEUD Â DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 - Y DIWEDDARAF (LLAFAR)**

Rhannodd Simon Jones, Arweinydd Strategol Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar â'r pwyllgor ynghylch y Polisi Cyllid mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfeiriodd at adroddiad Cefndir y Polisi Codi Tâl (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Talu am Wasanaethau Cymdeithasol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 21 Ebrill 2016.

Ychwanegodd fod y Polisi Codi Tâl yn disgrifio sut roedd Dinas a Sir Abertawe'n codi tâl ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Deddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, y rhestr o daliadau am y flwyddyn 2016/17 a'r cylch adolygu taliadau blynyddol.

Tynnodd sylw at y ffaith mai ymagewdd yr awdurdod oedd cysondeb a thryloywder. Amlinellodd y newidiadau ariannol a gweithredoedd a oedd wedi cael eu cyflwyno a'r cylch adolygu blynyddol arfaethedig.

Gofynnodd y cyngor nifer o gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd iddynt yn briodol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd yr aelodau wedi cael digon o gyfle i fynegi eu barn am y polisi newydd. Gwnaeth y swyddog hefyd ymateb i gwestiynnau'r aelodau ynghlyn â gofal cartref ac arfer gorau ym meysydd eraill. Cafodd Cyngor Sir Fynwy ei amlygu fel awdurdod a oedd wedi cyflwyno ymagwedd sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Y dylid nodi cynnwys y diweddariad
2) Y dylai'r Cadeirydd ystyried ymweliad â chyngor Sir Fynwy.

## 9 ADOLYGIAD COMISIYNU'R GWASANAETHAU DYDD I BOBL HYN. (LLAFAR)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Adolygiadau Comisiynu parhaol canlynol: -

- Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn;
- Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref;
- Adolygiad Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol;
- Adolygiad Comisiynu Gofal Preswyl.

Rhoddwyd adroddiad i'r pwyllgor a, y cynnydd diweddaraf mewn perthynas â phob Adolygiad Comisiynu a thrafodd yr aelodau elfennau pwysig ynglŷn â phob un. Amlinellwyd y canfyddiad negyddol am wasanaethau cymdeithasol mewn cymunedau a sut mae hyn yn effeithio ar unigolion. Trafodwyd materion mynediad hefyd.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cynnwys y diweddariadau a darparu rhagor o ddiweddariadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 10 CYNLLUN GWAITH

Cyflwynodd y Cadeirydd raglen waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Y dylai'r Cadeirydd/Aelod Cabinet drefnu ymweliad arall â llety cysgodol;
3) Y dylid trefnu trafodaethau ynglŷn â gofalwyr ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol;

4) Y dylai'r Cadeirydd gwrdd â'r Cynghorydd P Downing, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet, er mwyn trafod teledu cylch cyfyng;
5) Y dylid tynnu'r Polisi Siwgr o raglen waith 2016/17.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**CADEIRYDD**